

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 12fed 2024 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Eifion Davies (cadeirydd), Bethan Thomas, Rita Jones, Eilir Rowlands, Gary Thomas, Alwyn Jones, Iolo Evans, Gwenda Evans, Dewi Pritchard, Maldwyn Jones, Meilir Jones, Gwynedd Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Morris.

**Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr a chafwyd yn gywir.**

## **ii) Datgan Buddiant.**

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

## **iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

### **a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.**

i) Bagiau sbwriel wedi cael ei gadael yn y cilfannau, ger Braich Ddu a Merllyn Gwyn, Glanrafon. Roedd y bagiau sbwriel dal yna ond roedd gweithwyr wedi cychwyn clirio yn is i lawr y ffordd. Gofynnwyd y clerc i'r cynghorwyr ei hysbysu os nad oeddynt wedi cael eu clirio yn yr wythnosau nesaf.

ii) Dŵr yn dod drosodd i'r ffordd ger Tan y Graig, Llandderfel. – roedd trefniadau mewn lle i lanhau'r gwli.

iii) Fan wedi parcio ers peth amser yn un o'r cilfannau ar yr A494 – roedd yr heddwes lleol wedi cael sgwrs gyda pherchnogion y fan ond nid oedd unrhywbeth yn rhwystro iddynt aros yno.

iv) Brics yn disgyn i lawr o'r bont lein ger hen stesion tren Llandderfel – cafwyd cadarnhad nad oedd y llwybr yma yn un cyhoeddus felly cyfrifoldeb y tîrfeddianwr oedd gofalu am y bont.

v) Roedd trefniadau mewn lle i adfer y camfeydd ar y llwybr troed heibio Berth, Frongoch i Fryn Ffynnon,

### **b) Partneriaeth Penllyn (cyfraniad tuag at y gost o dorri llwybrau troed).**

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y byddai cynrychiolwyr y Cyngor yn trafod y mater yng nghyfarfod nesaf y Bartneriaeth ac ymadrodd yn nol i'r cynghorwyr cyn gwneud penderfyniad terfynol.

### **c) Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog - prosiect gwelliannau i'r mynwentydd.**

Roedd cais y Cyngor wedi bod yn llwyddianus ac roedd yr arian wedi cael ei dalu i mewn i gyfrif banc y Cyngor eisoes. Roedd y clerc wedi cyfarfod gyda'r contractwr coed i drafod cychwyn y gwaith. Cytunwyd i roi'r gwaith clirio i SW Jones.

### **ch) Cyfarfod i drafod newidiadau i'r gwasanaeth bws T3.**

Er yr ymdrechion i berswadio Trafnidiaeth Cymru i ail ystyried y toriadau nid oeddynt am newid eu penderfyniad. Cafwyd addewid y byddant yn edrych i mewn i'r opsiynau o ddarparu gwasanaeth fflecsi i'r pentrefi yn y dyfodol.

## **iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### **a) Amrywiol.**

i) Un Llais Cymru - Dibenion gwariant y dyfodol ar gyfer arian asedau segur yng Nghymru.

ii) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Gwylio Cyflymder Cymunedol.

iii) OpenReach – Cynllun uwchraddio cysylltedd rhyngwyd pentref Llandderfel. Cafwyd adroddiad o hyn a drafodwyd yn y cyfarfod diweddar yn Llandderfel a chytunwyd i geisio lledaenu'r neges gyda chymdeithasau lleol a gosod erthygl ym Mheth Penllyn.

iv) Menter Iaith Gwynedd – Taith y Fenter Iaith – digwyddiad yng Nghanolfan Henblas, 21/02/24.

## **v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) NP5/63/283 – Gosod tŵr dellt 30m yn cynnal 6 antena, 4 dysgl trwayrru, 4 cabinet offer ayyyb. Tir yng Nghoed Cae Celyn, Capel Celyn.

b) C24/0061/04/DT – Codi estyniad deulawr i gefn yr annedd. Tŷ Capel Soar, Maerdy.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.

**vi) Materion Ariannol.**

**a) Penodi Archwiliwr Mewnol.**

Cytunwyd i benodi uned archwilio fewnol Cyngor Gwynedd.

**b) Archwilio Cymru.**

Cynllun Ffioedd 2024-25.

**c) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).**

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

**ch) Derbyniadau.**

Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog - £7,965.87 (prosiect gwelliannau i'r mynwentydd).

**d) Taliadau**

Bin gwastraff gardd (ad-daliad i'r clerc).

**dd) Cyfraniadau Ariannol.**

Derbyniwyd ceisiadau gan Eisteddfod Llandderfel, Urdd Gobaith Cymru – Meirionnydd, Llen y Llannau a Dawns i Bawb. Cytunwyd i ddilyn y drefn arferol a'u trafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**

**a) Problemau parcio pentref Llandderfel.**

Roedd y bws T3 wedi methu dod i mewn i'r pentref i gasglu teithwyr yn ddiweddar oherwydd y ceir yn parcio gyferbyn a chyffordd y Sgwâr. Roedd yr heddwes lleol am gadw golwg ar y sefyllfa ac yn dilyn trafodaeth gyda Chyngor Gwynedd roedd opsiwn i osod llinellau melyn yno. Roedd y cynghorwyr yn ymwybodol fod llefydd parcio yn brin yn y rhan yno o'r pentref felly cytunwyd i lythyru'r tai cyfagos i ddod a'r sefyllfa i'w sylw.

**b) B5401, ger Hafod y Bryn, Cwmtirmynach.**

Yn dilyn difrod i nifer o gerbydau roedd y clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd ond yn dilyn archwiliad nid oeddynt wedi gweld unrhyw nam penodol i'r ffordd.

**c) Diogelwch ar yr A494 Llanfor.**

Yn dilyn damwain arall yn ddiweddar cytunwyd i anfon eto at Lywodraeth Cymru i ail ddatgan pryderon y Cyngor.

**ch) Lloches bws Frongoch.**

Yn dilyn tywydd garw yn ddiweddar roedd panel cefn y lloches wedi dod yn rhydd. Roedd y clerc wedi cysylltu â'r gwneuthurwr ac roeddynt am anfon y teclyn er mwyn ei ail osod. Cytunodd Alwyn Jones a Bethan Thomas i drefnu i wneud y gwaith.

**d) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-**

i) Tyllau yn y ffordd ym mhentref Frongoch.

ii) A4212 Bala i Frongoch, cyflwr y ffordd yn wael iawn, enwedig wrth fynedfa Hendre Mawr a ger mynedfa Fferm Frongoch.

iii) B4501 - Frongoch i Gwmtirmynach, rhannau o'r ffordd yn wael iawn a thyllau o gwmpas rhai o'r gridiau draen. Hefyd yn ystod y glaw mawr yn ddiweddar roedd pyllau mawr o ddŵr wedi hel, rhwng mynedfa Nant Hir a Llwyn Brain, gornel mynedfa Gorseddau, ger Neuadd Mynach a rhwng Wern Fawr a mynedfa ffordd Rhiwlas.

iv) B4401, Llandderfel - tyllau yn y ffordd enwedig ar y ffin sirol ger Dolgadfa.

v) B4402, ffordd heibio Pale - twll ger giât gefn Pale.

- vi) A494 ger Hengaer Isa, Glanrafon. Carreg wedi dod allan o'r clawdd, a'r tarmac sy'n hel y dŵr i'r draen wedi golchi i ffwrdd.
- vii) Coed Clwb Carafanau Crynierth – roedd coeden wedi disgyn ar y lein ffon eto. Cytunwyd i ail gysylltu â'r rheolwyr unwaith fydda'r safle wedi ail agor.
- viii) Cyflwr yr Hen Ysgol Fritanaidd, Glanrafon – roedd cyflwr yr adeilad yn gwaethygu ac angen sylw cyn gynted â phosib.
- ix) Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau pryd oedd y wal gyferbyn a'r capel yng Nglanrafon yn cael ei thrwsio.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 5ed am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.**